Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llanarth**

**Y Caban**
**Ysgol Gynradd Llanarth**
**Llanarth**
**Aberaeron**
**SA47 0PA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Cylch Meithrin Llanarth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Diana Watters |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Hydref 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant wedi setlo, yn hapus ac yn mwynhau cymryd rhan wrth chwarae a dysgu. Maent yn hyderus ac yn ymgysylltu'n llwyr yn eu gweithgareddau. Maent wedi datblygu cydberthnasau cryf â'u cyfoedion. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus ac maent yn cael rhai cyfleoedd i wneud dewisiadau.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau yn briodol i hyrwyddo llesiant, diogelwch a ffyrdd iach o fyw. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn cynnig cyfleoedd sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r staff yn ymateb i anghenion y plant ac yn gwrando ar eu safbwyntiau. Maent yn cynllunio'n briodol i sicrhau cynnydd y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn cynnig sylfaen adnoddau sy'n bodloni gofynion unigol a chamau datblygiad y plant.

Mae datganiad o ddiben clir gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad, sy'n cynnig darlun cywir o natur y gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r lleoliad wedi meithrin prosesau cyfathrebu clir â'r rhieni ac ymddiriedaeth â nhw, gan weithio gyda nhw i nodi anghenion a dewisiadau unigol y plant. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol. Mae'r partneriaethau yn gadarn. Fodd bynnag, mae rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas â chwblhau ymarferion tân rheolaidd a goruchwylio ac arfarnu'r staff.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn cael llawer o ddewisiadau a gallant wneud penderfyniadau o ran sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn symud o gwmpas yr amgylchedd yn rhydd, gan ddewis ble yr hoffent chwarae ac â beth. Er enghraifft, mae rhai plant yn dewis chwilio am drychfilod y tu allan gan ddefnyddio chwyddwydrau, tra bo eraill yn dewis archwilio'r apiau sydd ar gael iddynt ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol dan do. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus gan eu bod yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol iddynt. Er enghraifft, wrth fynegi eu bod yn dewis chwarae dan do gan ei bod yn rhy oer allan. Mae'r plant na allant gyfathrebu ar lafar eto yn defnyddio arwyddion, fel pwyntio a dal dwylo, i gyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau yn llwyddiannus.

Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus yn y lleoliad gan eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd a'r arferion. Mae gan y plant gydberthnasau da â'r staff ac maent yn ddigon bodlon i fynd atynt am gysur neu gymorth pan fo angen. Maent yn gwneud ffrindiau gyda'r plant eraill gan ddangos empathi a gofal, er enghraifft, helpu ei gilydd i gario'r caniau dŵr i ddyfrio'r planhigion. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn dysgu i gydweithredu, rhannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, gwnaethant aros yn amyneddgar am eu tro i ymweld â'r caffi byrbrydau. Maent yn parchu ei gilydd a'r adnoddau, gan eu defnyddio'n briodol a helpu i dacluso pan ofynnir iddynt. Mae'r plant yn gwrtais a chlywsom blant o bob oedran yn dweud os gwelwch yn dda a diolch yn aml.

Mae'r plant wir yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu. Er enghraifft, roedd llawer o wenu a chwerthin wrth iddynt chwarae yn y twba tywod yn chwilio am ddeinosoriaid ac yn defnyddio'r teganau cloddio i dyrchu'r tywod. Mae'r plant yn ymgysylltu â'r gweithgareddau a ddewisir ganddynt am gyfnod priodol o amser ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Gallant ddilyn eu diddordebau a mwynhau'r hyn y maent yn ei wneud. Mae'r plant yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn dathlu eu llwyddiant gyda'i gilydd a'r staff, er enghraifft, gan ddathlu gyda'i gilydd eu bod wedi brwsio eu dannedd yn llwyddiannus.

Mae'r gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael yn galluogi'r plant i roi cynnig ar bethau drostynt eu hunain ac i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Er enghraifft, gwisgo eu hesgidiau a'u cotiau eu hunain pan fydd yn amser mynd adref. Mae'r eitemau a'r ardaloedd dysgu y maent am eu defnyddio ar gael yn hwylus iddynt ac mae'r rhai hynny sy'n gallu defnyddio'r cyfleusterau fel y toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn annibynnol yn gwneud hynny. Fodd bynnag, roedd rhai cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth y plant yn cael eu colli, yn enwedig yn ystod amser byrbryd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o weithdrefnau'r lleoliad ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel, ac maent yn eu dilyn yn effeithiol. Mae bron pob un o’r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Cedwir cofnodion manwl o unrhyw ddigwyddiadau a damweiniau, ac unrhyw achosion lle bydd y staff yn rhoi meddyginiaeth i blentyn. Mae'r rhieni yn llofnodi'r cofnodion i ddangos eu bod wedi cael gwybod. Mae'r staff yn hyderus ynghylch y gweithdrefnau priodol i'w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn, ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant.

Mae'r staff yn annog y plant i fwyta'n iach ac i yfed digon. Maent yn dilyn gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod anghenion plant ag alergeddau yn cael eu diwallu bob amser. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn dilyn y gweithdrefnau priodol wrth newid cewynnau. Mae ardal benodol ar gyfer newid cewynnau sy'n cynnig lefelau preifatrwydd da i bob plentyn wrth newid cewynnau. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i dreulio amser yn yr awyr agored, gan sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau corfforol.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant, yn siarad â nhw mewn ffordd hoffus ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn tynnu sylw'r plant gan gynnig gweithgaredd arall os ydynt yn ei chael yn anodd rhannu neu gymryd eu tro ac yn rhoi esboniad clir pan na fydd eu hymddygiad yn dderbyniol.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl y maent yn gwybod y bydd y plant yn eu mwynhau. Drwy waith cynllunio yn y foment, mae'r staff yn ystyried safbwyntiau a diddordebau’r plant. Maent yn ymyrryd yn briodol er mwyn datblygu dealltwriaeth y plant. Mae'r lleoliad yn gwneud cynnydd da wrth roi egwyddorion y Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith. Mae gan y lleoliad drefniadau addas i nodi a chefnogi anghenion unigol y plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn casglu digon o wybodaeth am ddewisiadau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant ddechrau yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r staff i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol y plant. Mae gweithdrefnau da ar waith i weithio gydag asiantaethau allanol i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac i sicrhau bod anghenion unigol pob plentyn yn cael eu diwallu.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cynnig digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Maent yn sicrhau bod y staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol ar gyfer pob rhan o'r lleoliad er mwyn nodi a dileu peryglon posibl i ddiogelwch y plant. Mae'r arferion glanhau yn adlewyrchu hylendid da a rheolaeth effeithiol dros heintiau. Caiff cofrestrau ar gyfer y plant a'r staff sy'n gofalu amdanynt eu cwblhau'n ddyddiol ac mae'r staff yn sicrhau mai dim ond drwy fynediad awdurdodedig y gellir mynd i mewn i'r lleoliad, gan gadw cofnod o ymwelwyr. Mae'r gwiriadau diogelwch nwy a thrydan yn gyfredol a darparwyd tystysgrifau i ni yn dilyn yr ymweliad arolygu. Mae'r staff gofal yn cynnal ac yn cofnodi rhai ymarferion tân achlysurol;  fodd bynnag, nid yw'r ymarferion tân yn ddigon rheolaidd na chyson i sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan ynddynt yn gwybod sut i adael y safle yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn fawr ac yn addas i blant. Mae'r cynllun a'r dyluniad yn helpu i hyrwyddo annibyniaeth y plant ac yn meithrin eu hyder. Gosodir rhai adnoddau ar y llawr neu ar fyrddau, ac mae adnoddau eraill ar gael i'r plant fynd â'u chwarae i gyfeiriad gwahanol os byddant yn dymuno gwneud hynny Mae arddangosfeydd deniadol o waith y plant yn adlewyrchu eu dysgu ac yn dathlu eu cyflawniadau. Mae'r amrywiaeth eang o bosteri Cymraeg yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae ardaloedd diddorol a chroesawgar wedi'u gosod, gan annog y plant i chwarae a dysgu. Er enghraifft, ardal chwarae rôl gydag amrywiaeth dda o adnoddau, cornel ddarllen/amser stori gyfforddus gyda soffas maint plant a seddau meddal, cyfarpar dringo dan do, llithren ac ardal grefftau. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae a dysgu i'r plant.

Mae'r teganau a'r cyfarpar yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r lleoliad yn cynnwys dodrefn ac adnoddau o ansawdd da i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau maint plant, unedau storio teganau lefel isel a phegiau cotiau wedi'u henwi ar gyfer eiddo'r plant. Mae nifer addas o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn hylan. Mae sebon hylif a thywelion papur ar gael yn hawdd er mwyn cefnogi annibyniaeth y plant wrth olchi eu dwylo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn awyddus iawn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi darlun cywir o'r hyn sydd gan y lleoliad i'w gynnig, gan alluogi rhieni i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am ofal eu plentyn. Mae'r polisïau, y cofnodion a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith ac yn cynnwys y wybodaeth berthnasol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn fyfyriol ac yn gwerthuso'r gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Maent yn llunio adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal ac yn ei rannu â'r rhieni. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cryfderau'r lleoliad ac yn nodi'r meysydd yr hoffent eu datblygu a'u gwella.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn meddu ar gymwysterau priodol a bod y cymarebau staffio yn cael eu bodloni. Maent yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd. Mae'r nifer gofynnol o staff yn meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf gyfredol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal ffeiliau'r staff sy'n dangos y defnyddir proses recriwtio ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd sesiynau goruchwylio ac arfarnu staff wedi cael eu cynnal yn ddiweddar ac nad oedd sesiynau goruchwylio ac arfarnu staff yn cael eu cwblhau bob amser na'u cofnodi'n ffurfiol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn meithrin cydberthnasau da â'r rhieni, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant y plant. Maent yn casglu gwybodaeth werthfawr gan y rhieni am bob plentyn cyn iddo ddechrau, gan gynnwys alergeddau, dewisiadau bwyd, manylion meddygol a hoff bethau a chas bethau. Mae hyn yn sicrhau y caiff anghenion gofal y plant eu deall cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad, sy'n eu helpu i setlo'n hawdd. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am brofiadau eu plentyn drwy adborth ar lafar, grŵp negeseuon ar-lein a nosweithiau rhieni.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 38 | Mae'n rhaid i'r person cofrestredig gwblhau a chofnodi ymarferion tân rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plant a'r staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai tân. | Newydd |
| 29 | Sicrhau bod yr holl staff yn cael sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd arfarnu rheolaidd, a bod cofnod yn cael ei gadw ohonynt. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 8 – Maeth a lles | Datblygu cyfleoedd i annog annibyniaeth y plant ymhellach, yn enwedig yn ystod amser byrbryd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/04/2024